



SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD:	Derbynnydd sy'n fyfyrwr
RHEOLWR LLINELL:	Rheolwr Cyllid
CYFLOG:	£8.75 yr awr gan gynnwys lwfans gwyliau
ORIAU:	8 – 12 awr yr wythnos

DIBEN Y RÔL

Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf, croesawgar a chyfeillgar, ar gyfer myfyrwyr, staff ac ymwelwyr, yn ogystal â'r rheiny sy'n cysylltu ag Undeb y Myfyrwyr. Byddwch yn darparu gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau a chyfleusterau'r Undeb ac yn gyfrifol am sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael y gwasanaeth gorau posibl.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Prif ddyletswyddau:

- Croesawu myfyrwyr, cwsmeriaid ac ymwelwyr i UMAber.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer Undeb y Myfyrwyr, gan ddarparu gwybodaeth gyfoes a chyngor ar amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau, wyneb yn wyneb, drwy e-bost a thros y ffôn. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.
- Gweinyddu cardiau NUS Extra, cardiau teithio ac ati, a chadw cofnod cywir o werthiannau.
- Helpu myfyrwyr i gael gwybodaeth ac apwyntiadau gan y Gwasanaeth Cyngori.
- Helpu staff a myfyrwyr yr Undeb wrth drefnu ystafelloedd ac apwyntiadau, gan sicrhau eich bod yn cydlynu â'r adrannau priodol.
- Helpu i gyflawni dyletswyddau cyffredinol yn y dderbynfa, gan gynnwys rheoli'r post a danfoniadau, cofnodi a monitro eiddo coll a chysylltu â'r adran ddiogelwch a'r gwasanaethau brys yn ôl y galw.
- Sicrhau bod ardal y dderbynfa a'r cyntedd yn lân ac yn daclus drwy'r amser.

2. Dyletswyddau eraill:

- Hyrwyddo UMAber yn gadarnhaol a chynnal ei werthoedd a'i bolisiau.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau drwy'r Undeb cyfan. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo adrannau eraill â'u gweithgareddau a'u gwasanaethau
- Cyfrifoldeb holl staff Undeb y Myfyrwyr yw ystyried yr amgylchedd ac arferion gorau o ran yr amgylchedd
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

Newidiadau yn y Swydd Ddisgrifiad

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd ar ôl ymgynghori â deilydd y swydd.

Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.

